



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD LLUN, 20FED MAWRTH, 2017

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Swyddfeydd y Cyngor,
Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 13 Mawrth 2017)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

W. Tudor Owen (Cadeirydd)

Angela Russell

R. H. Wyn Williams

Annwen Hughes (Eilydd)

Aelod Lleol

Y Cynghorydd Sian Wyn Hughes

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 7

Caffi Porthdinllaen, Lon Golff, Morfa Nefyn LL53 6BE

I ystyried y cais uchod

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:

- 1) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2) Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4) Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	20 MAWRTH 2017
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO – CAFFI PORTHDINLLAEN, LON GOLFF, MORFA NEFYN LL53 6BE
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH RHEOLEIDDIO

CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Caffi Porthdinllaen, Lon Golff, Morfa Nefyn gan Mr James Christopher Munday. Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, a cherddoriaeth wedi ei recordio 7 diwrnod yr wythnos. Bwriedir cyflenwi alcohol ar ac oddi ar yr eiddo o hanner dydd than 11 yr hwyr, pob dydd. Fe fydd darpariaeth yn cael ei gynnig i gludo archebion bwyd oddi ar yr eiddo ac fe fydd yn bosib i gwsmeriaid archebu alcohol gyda'i harcheb bwyd. Defnyddir yr eiddo ar hyn o bryd fel caffi sydd yn agored tan yn hwyr yn y prynhawn, gydag ardal allanol ar gyfer cwsmeriaid. Nid oes gan yr eiddo drwydded ar hyn o bryd.

Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG	TRWYDDED ARFAETHEDIG
Cyflenwi alcohol – Ar ac oddi ar y r eiddo	Dydd Llun/Monday 12:00-23:00 Dydd Mawrth/Tuesday 12:00-23:00 Dydd Mercher/Wednesday 12:00-23:00 Dydd Iau/Thursday 12:00-23:00 Dydd Gwener/Friday 12:00-23:00 Dydd Sadwrn/Saturday 12:00-23:00 Dydd Sul/Sunday 12:00-23:00
Cerddoriaeth wedi ei recordio O dan do	Dydd Llun/Monday 08:00-21:00 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-21:00 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-21:00 Dydd Iau/Thursday 08:00-21:00 Dydd Gwener/Friday 08:00-21:00 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-21:00 Dydd Sul/Sunday 08:00-21:00
Oriau agor a chau i'r Cyhoedd	Dydd Llun/Monday 08:00-23:30 Dydd Mawrth/Tuesday 08:00-23:30 Dydd Mercher/Wednesday 08:00-23:30 Dydd Iau/Thursday 08:00-23:30 Dydd Gwener/Friday 08:00-23:30 Dydd Sadwrn/Saturday 08:00-23:30 Dydd Sul/Sunday 08:00-23:30

Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Hyfforddiant i staff
- Bwriedir gweithredu polisi Her 25 wrth werthu alcohol ar yr eiddo ac wrth gludo'r archeb i'r cwsmer.
- Fe fydd staff fydd yn cludo bwyd a diod oddi ar yr eiddo yn derbyn hyfforddiant perthnasol
- Fe fydd cydymffurfiad gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Teledu Cylch Cyfyng a goleuo
- Ni fydd ymddygiad drwg yn cael ei oddef
- Bwriedir fod yn aelod o Pubwatch
- Cadw cofnodion gwrthod gwerthiant alcohol
- Bwriedir cydymffurfio gyda deddfwriaeth Iechyd amgylchedd mewn perthynas â niwsans cyhoeddus

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Heddlu Gogledd Cymru	E bost dim sylwadau
Cynghorydd lleol	E bost - gwrthwynebiad
Cyngor Tref Nefyn	Llythyr – gwrthwynebiad
Preswylwyr cyfagos	17 llythyrau ac e byst yn gwrthwynebu

Cafwyd 20 o lythyrau ac e byst - 19 yn gwrthwynebu y cais mewn perthynas â'r 4 amcan trwyddedu sef -

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Atal plant rhag niwed
- Atal niwsans cyhoeddus

Gwrthwynebiadau - Aelod lleol a Chyngor Tref Nefyn

Codwyd y pwyntiau canlynol wrth ymhelaethu yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd –

1. Mae'r oriau agor arfaethedig yn hwyrach na'r oriau tymhorol Ebrill i Hydref sydd wedi ei ganiatáu yn y Caniatâd Cynllunio
2. Nid oes digon o le parcio ar yr eiddo ac mae'r ffordd fynediad yn gul ac yn cael ei defnyddio gan y Bad Achub, trigolion, ac ymwelwyr
3. Nid yw strwythur yr adeilad yn addas ar gyfer y gweithgareddau trwyddedig arfaethedig - cwt pren strwythur un haen yw'r adeilad ac mae pryderon fod sŵn o'r gerddoriaeth chwyddedig o'r adeilad yn mynd i dreiddio allan i effeithio preswylwyr cyfagos
4. Dim digon o oleuadau i'r pwrpas

5. Nodwyd fod ymddygiad gwrth gymdeithasol wedi digwydd yn yr ardal tu allan i'r adeilad yn y gorffennol
6. Nodwyd pryderon am effaith goleuo hwyr y nos a gwastraff
7. Fod darpariaeth ddigonol o weithgareddau trwyddedig yn yr ardal

Gwrthwynebiadau – trigolion lleol

Codwyd y pwyntiau canlynol yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd –

1. Nodwyd fod amseroedd yr oriau gweithgareddau trwyddedig y tu hwnt i'r hyn sydd wedi ei ganiatáu gan y gwasanaeth Cynllunio; ac nid oedd erioed fwriad i'r adeilad gael ei ddefnyddio fel dim mwy na chaffi gwerthu hufen ia , te a choffi yn ystod y dydd.
2. Mae'r eiddo mewn ardal breswyl , ddistaw ac mae sŵn cerddoriaeth, pobl tu allan yn yfed , cerbydau ychwanegol a sŵn gwagio poteli yn hwyr yn y nos yn mynd i darfu yn sylweddol ar drigolion.
3. Nid yw'r adeilad yn addas ar gyfer cerddoriaeth chwyddedig wedi ei recordio, saith diwrnod o'r wythnos
4. Nodwyd pryderon y bydd yr ymgeisydd os yn llwyddiannus gyda'r cais yn cymryd mantais o eithriadau'R Ddeddf Gerddoriaeth Fyw 2012 i gynnal adloniant byw ar yr eiddo.
5. Nododd sawl preswilydd eu bod wedi dioddef o sŵn cwsmeriaid yn mynychu partïon ar yr eiddo eisoes (lle yr oeddent yn dod ac alcohol eu hunain) a'u bod yn eistedd ar y byrddau tu allan ac yn creu sŵn.
6. Nododd sawl preswilydd fod yr ymgeisydd wedi dweud wrthynt fod bwriad ganddo i chwarae cerddoriaeth tu allan i'r eiddo ar 'speakers' a bod bwriad ganddo gael adloniant byw ar ffurf gitâr acwstig tu allan yn ystod yr haf.
7. Fe ddatganwyd pryderon gan sawl ymatebydd fod darpariaeth parcio yn gwbl annigonol ac y byddai pobl yn parcio ar ochr y ffordd fynediad gul yn rhwystro mynediad trigolion, y Bad Achub ac ymwelwyr. Nodwyd fod y Bad Achub wedi ei rhwystro ar un achlysur flwyddyn diwethaf oherwydd problemau parcio ar y ffordd.
8. Mae'r ffordd fynediad yn cael ei defnyddio gan nifer fawr o gerddwyr, ac y byddai cynnydd yn y traffig yn beryglus
9. Nodwyd gan sawl ymatebydd fod gwerthu ac yfed alcohol tu allan i'r eiddo yn groes i'r egwyddor o geisio annog plant a theuluoedd i ddefnyddio'r ddarpariaeth chwarae plant sydd tu allan i'r eiddo ar hyn o bryd.
10. Nodwyd nad oedd toiledau tu mewn i'r eiddo - gan godi cwestiwn am addasrwydd y cyfleusterau; a chynyddu sŵn pobl yn mynd i mewn ac allan o'r toiledau gyda'r nos.
11. Nododd un gwrthwynebydd fod y caniatâd gwreiddiol i'r caffi wedi ei neilltuo i unigolyn; gydag amod fod yr adeilad yn cael ei ddymchwel ai adfer i ddefnydd amaethyddol ar ymadawiad yr unigolyn o'r adeilad.
12. Nododd sawl ymatebydd nad oeddynt yn hapus nad oedd y cais wedi ei hysbysebu ar y ffens tu allan i'r adeilad yn hytrach nag oddi fewn i ffenestr yr adeilad yn unig.

Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd .

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.